Ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad gan Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Waith Athrawon Cyflenwi gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod bod trefniadau cyflenwi effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr. Felly, mae rôl athrawon cyflenwi yn y system addysg yn hollbwysig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y strwythurau, yr adnoddau a'r rhwydweithiau angenrheidiol mewn grym er mwyn cynorthwyo athrawon cyflenwi yn ystod pob cam o'u gyrfa.

Felly, rydw i'n ddiolchgar am yr ymchwiliad hwn ac am adroddiad y Pwyllgor hwn. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o waith caled holl aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth iddynt gasglu'r dystiolaeth a'r ymatebion, a chyflwyno eu canfyddiadau.

Yn gyffredinol, mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn dda gyda'n hasesiad ni o gyfeiriad y polisi yn y maes hwn ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, ac rydw i'n falch bod modd i mi dderbyn y rhan fwyaf ohonynt. Mae angen ystyried rhai ohonynt ymhellach, ac rydw i'n cefnogi bwriad yr argymhellion hyn.

Mae'r system addysg yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid, wedi'i seilio ar ddatblygiad y cwricwlwm newydd a nodwyd gan Athro Graham Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus.* Yn ogystal, mae'r Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg yn cynnig hawl i'r holl ymarferwyr, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o safon byd er mwyn datblygu eu gwaith addysgu trwy gydol eu gyrfaoedd. Rhagwelir datblygiad sylweddol hefyd mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn dilyn adroddiad Athro John Furlong.

Bydd datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd a'r Fargen Newydd yn gofyn am ddull gweithredu o gydweithio er mwyn datblygu trefniadau cyflenwi arloesol, cynaliadwy a chynhwysol. Mae modd i system hyfforddi athrawon newydd gynnig cyfleoedd i ni gynorthwyo a datblygu ein ANGon yn ystod camau cynharaf eu gyrfa. Rydym yn dymuno sicrhau bod modd i ysgolion ar draws Cymru fanteisio ar weithlu addysgu hynod o fedrus a hyblyg, sy'n meddu ar gymhelliant ac y mae ei werth yn cael ei gydnabod ar draws y sector.

Mae cyd-destun y system addysg yng Nghymru, sy'n newid, yn rhoi'r cyfle i ni ystyried y gweithlu y bydd ei angen arnom yn y dyfodol. Mae argymhelliad Comisiwn Silk i ddatganoli amodau a thelerau athrawon, os caiff ei ddatblygu, yn gyfle arall a allai ein helpu i siapio gweithlu ar gyfer y dyfodol lle y bydd hyblygrwydd ac ansawdd yn allweddol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig ein bod yn ystyried yn ofalus sut y rhoddir sylw i absenoldeb mewn ysgolion ar hyn o bryd, a'n bod yn ystyried dewisiadau posibl ar gyfer modelau darparu amgen er mwyn darparu gwasanaeth cyflenwi, y byddant yn adlewyrchu gofynion y system addysg newydd.

Gan ymateb i'r adroddiadau a ysgrifennwyd gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch rheoli absenoldeb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol* ym mis Gorffennaf 2015. Roeddwn yn falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod gwerth y canllawiau a'r potensial i ddatblygu'r canllawiau ymhellach er mwyn rhoi sylw i rai o'r materion a godwyd gan randdeiliaid.

Wrth ei chyhoeddi, gwnaethom nodi bod y canllawiau yn ddogfen fyw a fyddai'n cael ei diweddaru yn rheolaidd. Felly, roeddem yn croesawu yn arbennig y penderfyniad a wnaethpwyd gan y Pwyllgor i ymgynghori gyda rhanddeiliaid am y canllawiau fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Bydd adroddiad y Pwyllgor, law yn llaw gyda gweithgarwch ymgysylltu pellach gyda rhanddeiliaid, yn cyfrannu at fersiwn wedi'i ddiweddaru a gyhoeddir yn ystod tymor yr haf 2016. Caiff y canllawiau eu dylanwadu ymhellach gan adolygiad thematig o'u heffeithiolrwydd, a gynhelir gan Estyn yn ystod 2016-17.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i weithio gydag amrediad o bartneriaid cyflawni er mwyn gwella'r sefyllfa o ran athrawon cyflenwi yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi. Adlewyrchir hyn yn adroddiad y Pwyllgor, a bydd nifer o'i argymhellion yn gofyn i sefydliadau eraill weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth gymryd camau arwyddocaol i wella cyfeiriad ac effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer athrawon cyflenwi yng Nghymru.

Bydd adroddiad y Pwyllgor a'r dystiolaeth a gyflwynwyd trwy gydol yr ymchwiliad yn darparu gwybodaeth hanfodol er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu polisi yn y maes hwn. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor unwaith eto am ei gymorth wrth godi ymwybyddiaeth ac wrth roi sylw i'r materion mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer athrawon cyflenwi yng Nghymru.

Isod, nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

Argymhelliad 1
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

1. Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau gweithio i gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y contract presennol yn rhedeg tan fis Awst 2018, ond mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau gweithio nawr i sicrhau bod y system newydd yn ei lle yn barod.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn, a fydd yn cael ei ddatblygu law yn llaw gyda datblygiad y cwricwlwm newydd, y Fargen Newydd a'r gwaith parhaus i ddiwygio Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Yn ogystal, mae'n

cyd-fynd gyda'n hymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar a oedd yn ystyried modelau darparu amgen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ar ôl cyhoeddi adroddiad *Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd ymlaen?: Ffyrdd newydd o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru* ym mis Gorffennaf 2015, lluniwyd Cynllun Gweithredu at ddibenion ymgynghori gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad. Gan ymateb i argymhelliad yr adroddiad i "gomisiynu gwaith pellach ar y cyd gydag adrannau addysg lleol ynghylch y potensial o sefydlu cwmnïau cydweithredol uwchradd ar gyfer athrawon cyflenwi," gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i barhau i ystyried y dewisiadau o ran modelau darparu amgen ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi.

Daeth yr ymgynghoriad am y Cynllun Gweithredu i ben ar 13 Ionawr 2016; bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cynorthwyo i gyfrannu at ein gweledigaeth ar gyfer y tymor hwy er mwyn darparu adnodd addysgu hyblyg mewn ysgolion.

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ganllawiau *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol.* Mae'r ddogfen yn nodi amrediad y dewisiadau sydd ar gael i ysgolion wrth iddynt ystyried sut i ddelio ag absenoldeb. I gyd-fynd â'r canllawiau hyn, rydym yn coladu tystiolaeth ynghylch arferion effeithiol gan ysgolion lle y mae dulliau amgen o ddarparu er mwyn delio ag absenoldebau yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu gweithredu. Rhennir y dystiolaeth hon gyda'r proffesiwn er mwyn cyfrannu at arferion.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r consortia er mwyn sicrhau bod Ysgolion Arloesi (ysgolion a ddewiswyd er mwyn helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r Fargen Newydd) yn cael eu hannog i gydweithio er mwyn ystyried trefniadau cyflenwi arloesol, cynaliadwy a chynhwysol. Bwriadwn adolygu'r arferion hyn er mwyn cyfrannu at ddatblygiad polisi pellach yn y maes hwn. Unwaith eto, caiff tystiolaeth o arfer effeithiol ei choladu a'i rhannu ymhlith y proffesiwn yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, undebau addysg a'r proffesiwn er mwyn cyfrannu at ddatblygiad polisi yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach wrth ddatblygu polisi.

Casgliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad thematig arall gan Estyn, pryd y gellir asesu effeithiolrwydd y Canllawiau.

Argymhelliad 2
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

2. Cyn unrhyw adolygiad thematig arall gan Estyn, dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio â'r rhanddeiliaid i sicrhau bod y Canllawiau mor gadarn ac effeithiol ag y gallan nhw fod.

Ymateb: Derbyn

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn. Ers ei chyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd dogfen canllawiau *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol* yn ddogfen fyw ac y bydd yn cael ei diweddaru pan fo hynny'n briodol. Cyd-luniwyd y canllawiau gydag awdurdod lleol a buom yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys undebau addysg, ymarferwyr ysgol, Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru) wrth eu datblygu.

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol trwy gyfrwng amrediad o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol a bydd rhanddeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad parhaus y ddogfen ganllawiau hon.

Trwy gyfrwng ein gweithgarwch ymgysylltu gyda phenaethiaid AD Addysg o fewn yr awdurdodau lleol, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno cydlynu'r broses o gasglu polisïau model er mwyn cyd-fynd â'r canllawiau.

Bwriadwn ddiweddaru a chryfhau'r canllawiau hyn er mwyn adlewyrchu argymhellion adroddiad y Pwyllgor a safbwyntiau rhanddeiliaid yn ystod tymor yr haf 2016.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd yn ôl i unrhyw Bwyllgor cyfrifol yn y dyfodol ar ganlyniad ac effaith y canllawiau yn sgil adolygiad Estyn yn 2016/17.

Ymateb: Derbyn

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd adroddiad Estyn ar gael i'r cyhoedd a bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ymateb ffurfiol i'r adroddiad a'i argymhellion. Byddwn yn sicrhau bod adroddiad Estyn ac ymateb Llywodraeth Cymru yn cael eu hanfon ymlaen at unrhyw Bwyllgor cyfrifol yn y dyfodol yn uniongyrchol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Casgliad 2: Mae'r Pwyllgor yn nodi mai darparu ar gyfer data mwy cyson a chymaradwy yw bwriad y canllawiau newydd. Fe ddylai hyn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros absenoldeb athrawon, a all helpu wedyn i leihau absenoldeb oherwydd salwch a'r angen am athrawon cyflenwi.

Argymhelliad 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

4. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Canllawiau newydd wedi'u cyflwyno, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i helpu i symleiddio'r system ar gyfer cyflenwi.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae'r Pwyllgor wedi cydnabod bod dogfen ganllawiau *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol* yn cynnig fframwaith i randdeiliaid, er mwyn iddynt ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwella presenoldeb, gan gynnwys eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chasglu, lledaenu a dadansoddi data. Caiff y canllawiau eu cryfhau ymhellach er mwyn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau dogfen ganllawiau y *Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol* (Tachwedd 2015), gan gynnwys diweddariad am dempledi data a ddatblygwyd gan y consortia er mwyn i benaethiaid eu defnyddio wrth adrodd i lywodraethwyr, bob tymor neu bob hanner tymor, ynghylch perfformiad ysgol yn ystod y flwyddyn. Bellach, mae'r canllawiau diwygiedig yn mynnu bod y templed yn cynnwys gwybodaeth am absenoldebau salwch staff ac absenoldebau eraill (gan gynnwys trefniadau cyflenwi gwersi a chostau cyflenwi). Bydd y wybodaeth hon yn rhoi dealltwriaeth fwy eglur i'r holl randdeiliaid o absenoldebau athrawon, gan gynorthwyo i nodi unrhyw faterion y rhoddir sylw iddynt.

Fel yr amlinellwyd gennym wrth ymateb i Argymhelliad 1, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu modelau darparu amgen er mwyn darparu athrawon cyflenwi, gan ystyried system symlach.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 5
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

5. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil ar unwaith i ganfod (a) a oes mwy o ddefnydd ar athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, a (b) achosion unrhyw gynnydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Rydym yn cydnabod bod angen yr athrawon gorau arnom i weithio gyda dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, os ydym yn mynd i barhau i sicrhau cynnydd wrth gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad dysgwyr y maent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (e-FSM) a'u cymheiriaid.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw waith ymchwil sy'n pennu cyswllt pendant rhwng mynychtra athrawon cyflenwi ac ardaloedd lle y gwelir lefelau amddifadedd uchel, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar gynnydd addysgol dysgwyr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd pennu a oes tystiolaeth bod cyswllt o'r fath yn bodoli.

Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio a oes unrhyw ddata ar gael ynghylch y defnydd a wneir o athrawon cyflenwi yn ôl ardal ddaearyddol, neu thrwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod ymchwil wedi cael ei gynnal mewn mannau eraill sy'n cadarnhau tuedd lle y gwelir lefelau absenoldeb uwch ymhlith athrawon mewn ysgolion incwm isel, yn ogystal â'r ffaith bod dysgwyr difreintiedig yn cael eu heffeithio yn fwy gan yr absenoldeb hwn (Charles Clotfelter et al., 2007). Fodd bynnag, cynhaliwyd yr astudiaethau hyn yn UDA ac ni ellir cyffredinoli achosion cyfatebol i Gymru o reidrwydd.

Byddwn yn ystyried wedi hyn a oes angen mwy o waith ymchwil, a'r gwerth ychwanegol y gallai hwn ei gynnig i'r maes polisi hwn.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad o effaith dogfen canllawiau *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol.* Gofynnwyd i Estyn ystyried sawl maes, gan gynnwys:

- Asesu effaith absenoldeb athrawon yn y sector cynradd ar gyrhaeddiad dysgwyr, gan wneud cyfeiriad arbennig at ganlyniadau disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mewn ardaloedd difreintiedig.
- Dadansoddi'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig o'u cymharu gydag ardaloedd eraill.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach ar ôl i Estyn gynnal ei hadolygiad.

Argymhelliad 6
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ysgolion i sicrhau eu bod yn datblygu targedau ar gyfer monitro absenoldeb, fel y nodir yn y

Canllawiau newydd, sydd wedi'u seilio ar y data y maen nhw'n ei gasglu ac ar ddata o ysgolion tebyg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae'n gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol fel y cyflogwr a'r consortia rhanbarthol fel y gwasanaeth gwella ysgolion, gan weithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn pennu targedau ar gyfer eu hunain, gan gynnwys, os yw hynny'n briodol, targedau er mwyn monitro absenoldeb. Caiff y targedau hyn eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Datblygu Ysgol a dylai data cymharol cadarn yn erbyn perfformiad ysgol gyfrannu atynt.

Mae dogfen ganllawiau ddiwygiedig y *Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol* (Tachwedd 2015) yn amlinellu cyfrifoldeb consortia dros ddatblygu templedi data gydag ysgolion, bod penaethiaid yn adrodd i lywodraethwyr am eu perfformiad, sy'n cynnwys gofyniad i adrodd am absenoldebau salwch staff ac absenoldeb eraill (gan gynnwys trefniadau cyflenwi gwersi a chostau cyflenwi).

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Chyrff Llywodraethu yn ymwybodol o argymhelliad y Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 7
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

7. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ystyried y goblygiadau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n cael eu defnyddio fel athrawon cyflenwi, er mwyn iddyn nhw allu dangos yn llawn eu bod wedi cyrraedd safonau athro proffesiynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Rhaid i'r holl Athrawon Newydd Gymhwyso (ANGon) y maent yn gweithio fel athrawon cyflenwi gael darpariaeth ymsefydlu statudol er mwyn dangos eu bod wedi cyrraedd y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda dau o'r consortia rhanbarthol er mwyn peilota pecynnau cymorth estynedig ar gyfer ANGon yn ystod y flwyddyn academaidd hon, y maent yn cynnwys ystyriaeth benodol o anghenion athrawon cyflenwi. Bwriedir y bydd y gwersi a gaiff eu dysgu yn cael eu defnyddio i siapio'r ddarpariaeth ymsefydlu ar draws yr holl ranbarthau o fis Medi 2016.

Mae'r canllawiau ynghylch y rhaglen ymsefydlu ar gyfer ANGon yn cael eu diweddaru ac o fewn hyn, byddwn yn sicrhau bod pob ANG, gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi am y tymor byr, yn gallu manteisio ar fentor allanol cyn gynted ag y byddant yn cofrestru eu bod yn cychwyn ar eu gweithgarwch ymsefydlu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Ar hyn o bryd, rhaid i ANGon gael 50 sesiwn cyn y caiff mentor allanol ei neilltuo iddynt. Bydd y newid hwn i'r broses yn rhoi arbenigedd, cymorth a chyngor iddynt trwy gydol eu cyfnod ymsefydlu er mwyn eu cynorthwyo i sicrhau Statws Athro wrth eu Gwaith.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach yn dilyn adolygiad o'r prosiectau peilot.

Argymhelliad 8
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

8. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfeiriad clir yn cael ei roi i'r awdurdodau lleol a'r consortia ar eu rôl ynglŷn â defnyddio athrawon cyflenwi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ansawdd yr addysgu a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar safonau yn yr ysgolion. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol i helpu i gyflawni hyn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae canllawiau *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn effeithiol* yn ddogfen fyw. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn adolygu sut y mae modd cryfhau'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r argymhelliad hwn. Rhaid nodi, fodd bynnag, mai'r consortia rhanbarthol sy'n meddu ar y cyfrifoldeb dros wella ysgolion.

Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'n gwaith parhaus ynghylch modelau darparu amgen er mwyn darparu athrawon cyflenwi.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 9
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

9. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effeithiau gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau i'r disgyblion, gan gyfeirio'n benodol at ardaloedd difreintiedig, a'r cysylltiad ag ymddygiad disgyblion.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Rydym yn cydnabod bod tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Estyn yn cefnogi'r farn bod absenoldeb athrawon yn effeithio ar ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, bydd dysgwyr yn gwneud llai o gynnydd pan fydd eu hathro dosbarth arferol yn absennol, ac mewn ysgolion uwchradd, mae modd i ymddygiad dysgwyr fod yn waeth yn aml. Mae hyn yn arbennig o wir pan gaiff athrawon cyflenwi o'r tu allan i'r ysgol eu dwyn i mewn, yn hytrach na defnyddio aelodau o staff yr ysgol at ddibenion cyflenwi.

Mae adroddiad y Pwyllgor wedi nodi bod rhai ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd difreintiedig, wedi cael anhawster wrth ddod o hyd i athrawon cyflenwi addas, a bod hyn o bosibl wedi cael effaith ddilynol ar ddeilliannau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw graddau'r effaith honno yn glir.

Mae gwella sgiliau a chapasiti y gweithlu trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol yn ganolog i'r ymdrech i godi safonau mewn ysgolion. Fel rhan o'r Fargen Newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod swm sylweddol o adnoddau ac offerynnau newydd wedi cael eu hychwanegu i Dysgu Cymru a Hwb. Mae'r adnoddau hyn ar gyfer yr holl athrawon ac maent yn cynnwys adnoddau model dysgu proffesiynol mewn perthynas â chydweithio effeithiol, defnyddio data ac ymchwil. Mae pecyn dysgu yn cael ei gwblhau hefyd, a fydd yn cyfrannu at radd Meistr mewn Arfer Addysgol.

O ran gwella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig a rhoi sylw i ymddygiad, rydym eisoes wedi gweithredu trwy gyfrwng rhaglen *Ailysgrifennu'r Dyfodol,* yn ogystal â chyhoeddi Llawlyfrau Rheoli Ymddygiad ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r llawlyfrau hyn yn cynnig amrediad o ddulliau a dulliau gweithredu y mae modd eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth pan welir ymddygiad anodd, y mae modd iddynt fod yn arbennig o berthnasol i athrawon cyflenwi.

Fel y soniwyd yn argymhelliad 5, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad o effaith dogfen ganllawiau *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn effeithiol.* Mae'r adolygiad yn cynnwys sawl maes, gan gynnwys:

- Asesu effaith absenoldeb athrawon yn y sector cynradd ar gyrhaeddiad dysgwyr, gan wneud cyfeiriad arbennig at ganlyniadau disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mewn ardaloedd difreintiedig.
- Dadansoddi'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig o'u cymharu gydag ardaloedd eraill.

Byddwn yn ystyried wedi hyn a oes angen mwy o waith ymchwil, a'r gwerth ychwanegol y gallai hwn ei gynnig i'r maes polisi hwn.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach ar ôl i Estyn gynnal ei hadolygiad.

Argymhelliad 10
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Canllawiau ynghylch Rheoli Absenoldeb yn Effeithiol yn cynnwys mwy o rôl ar gyfer goruchwyliaeth gan yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol o ran defnyddio athrawon cyflenwi mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu a'r effaith ar safonau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae canllawiau *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn effeithiol* yn ddogfen fyw. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn adolygu sut y mae modd cryfhau'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r argymhelliad hwn. Rhaid nodi, fodd bynnag, mai'r consortia rhanbarthol sy'n meddu ar y cyfrifoldeb dros wella ysgolion.

Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'n proses o ystyried modelau darparu amgen er mwyn darparu athrawon cyflenwi.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 11
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

11. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi eglurder ar sut y gall y Fargen Newydd a Chynlluniau Datblygu Ysgolion gael eu defnyddio i roi cefnogaeth bendant i anghenion athrawon cyflenwi o ran DPP, yn enwedig y rhai sydd ar gontractau mwy byrdymor.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Byddwn yn datblygu canllawiau penodol yn nodi sut y bydd modd i athrawon cyflenwi fanteisio ar eu hawl i ddatblygu eu harfer addysgu, trwy gyfrwng y Fargen Newydd. Wrth i weithrediad y Cynlluniau Datblygu Ysgol gael ei adolygu, ystyrir a fyddai modd i'r Cynlluniau gynnig cymorth ychwanegol i ddatblygiad athrawon cyflenwi.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 12
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

12. Dylai Llywodraeth Cymru hybu pwysigrwydd DPP wyneb yn wyneb yn ogystal â dysgu ar-lein yn ei strategaethau DPP. Dylai hyn gael ei

wneud drwy'r trwch, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar DPP i athrawon cyflenwi.

Ymateb: Derbyn

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn datblygu rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion arloesi er mwyn cynorthwyo darpariaeth DPP wyneb yn wyneb, a bydd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pob athro.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 13
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

13. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y potensial ar gyfer DPP gorfodol, gan gynnwys y potensial ar gyfer sefydlu gofynion DPP blynyddol er mwyn cadw'ch cofrestriad, fel y mae wedi'i dreialu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Byddwn yn ceisio mewnbwn eang gan randdeiliaid ynghylch a ddylem ddatblygu a gwella rôl CGA, a'i wneud yn gorff proffesiynol sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn proffesiynau eraill yn fwy. Caiff cynigion eu cynnwys mewn ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 14
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

14. Rhaid i'r Gweinidog nodi'n glir ei weledigaeth ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg wrth ddatblygu DPP, gan gyfeirio'n benodol at athrawon cyflenwi.

Ymateb: Derbyn

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae CGA eisoes yn arwain ar ddatblygiad Pasbort Dysgu Proffesiynol a fydd yn "tanseilio llwybrau gyrfa ymarferwyr ac yn eu cynorthwyo i gofnodi, i fyfyrio am ac i nodi'r cyfleoedd dysgu proffesiynol mwyaf priodol er mwyn datblygu a dyfnhau eu harfer yn ystod pob cam o'u gyrfa.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mewnbwn ehangach gan randdeiliaid ynghylch a ddylem ddatblygu a gwella rôl CGA, a'i wneud yn gorff

proffesiynol sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn proffesiynau eraill yn fwy.

Gallai datblygu rôl CGA wrth gynorthwyo dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer yr holl ymarferwyr fod yn ffocws ar gyfer gweithgarwch cenedlaethol i gydlynu cyfleoedd dysgu proffesiynol. Gallai'r holl wybodaeth/arweiniad hwn fod ar gael trwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

Mae argymhellion adolygiadau Donaldson a Furlong yn nodi mewn ffordd eglur bod angen rhoi ffocws o'r newydd ar ddatblygiad sgiliau addysgeg ymarferwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn hollol barod i gyflawni galwadau y systemau addysgol newydd yng Nghymru.

Byddai rôl ehangach ar gyfer CGA yn dangos ymddiriedaeth yn y proffesiwn, gan arwain ymlaen at newidiadau ym maes addysgu, gan gynorthwyo a datblygu'r proffesiwn ymhellach.

Rydw i wedi nodi yn eglur fy mod yn dymuno sicrhau bod CGA yn cael yr amser priodol i 'ymsefydlu', gan ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd sef cofrestru; gan gynnwys cofrestru categorïau newydd o ymarferwyr (gweithwyr cymorth dysgu AB ac mewn ysgolion, Dysgu Seiliedig ar Waith a Gweithwyr Ieuenctid).

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 15
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

15. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n uniongyrchol â'r asiantaethau cyflenwi i edrych ar y potensial i adnewyddu elfennau hanfodol hyfforddiant, gan gynnwys y potensial i gynyddu'r ddarpariaeth DPP yn ystod gwyliau ysgol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith a osodwyd gan Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru, ceir gofyniad bod Darparwyr Fframwaith yn darparu DPP ac elfen o reoli perfformiad. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod gyda'r Darparwr Fframwaith i drafod materion polisi megis DPP a'r ddarpariaeth rheoli perfformiad, er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi y maent wedi cofrestru gyda nhw yn cael y cymorth gofynnol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda'r Darparwr Fframwaith er mwyn gwella cyfleoedd DPP, a byddwn yn cryfhau dogfen ganllawiau *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn effeithiol* er mwyn adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect peilot er mwyn darparu hyfforddiant ar blatfform dysgu Hwb Llywodraeth Cymru, sy'n targedu

athrawon cyflenwi. Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn cyfrannu at ddatblygiad polisi pellach yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach wrth ddatblygu polisi.

Argymhelliad 16
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

16. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Estyn yn mynd ati, fel rhan o'u hadolygiad o'r Canllawiau newydd, i ystyried a yw'r gosodiad yn y Canllawiau ynglŷn â 'darpariaeth ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol...' wedi creu'r canlyniad anfwriadol bod ysgolion yn cyflogi cyfres o staff byrdymor lle gallai opsiwn mwy hirdymor fod yn fwy priodol.

Ymateb: Derbyn

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn adolygu effeithiolrwydd ac effaith canllawiau *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn effeithiol* ar drefniadau cyflenwi mewn ysgolion cynradd. Bydd Estyn yn:

- Adolygu dulliau gweithredu ysgolion tuag at ddarparu trefniadau er mwyn ymateb i absenoldeb athrawon ac asesu effeithiolrwydd y dewisiadau cyflenwi sydd ar gael.
- Asesu effaith absenoldeb athrawon ar gyrhaeddiad dysgwyr yn y sector cynradd, gan wneud cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mewn ardaloedd difreintiedig.
- Adolygu cyflogaeth, hyfforddiant a'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi yn y sector cynradd.
- Dadansoddi'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, o'u cymharu ag ardaloedd eraill.

Byddwn yn gweithio gydag Estyn er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn rhoi sylw i'r argymhelliad hwn hefyd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 17
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

17. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r asiantaethau cyflenwi er mwyn helpu i sicrhau bod y broses rheoli perfformiad yn cael ei darparu ar gyfer yr holl athrawon cyflenwi, nid y rhai sy'n tangyflawni yn unig.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith a osodwyd gan Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru, ceir gofyniad bod Darparwyr Fframwaith yn darparu DPP ac elfen o reoli perfformiad. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod gyda'r Darparwr Fframwaith i drafod materion polisi megis y ddarpariaeth rheoli perfformiad, er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi y maent wedi cofrestru gyda nhw yn cael y cymorth gofynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r ffaith bod y Darparwr Fframwaith yn datblygu proses well er mwyn rheoli perfformiad ar hyn o bryd ar gyfer ei athrawon cyflenwi. Bydd hon yn dod i rym ym mis Medi 2016. Yn ogystal, byddwn yn adolygu'r canllawiau er mwyn gweld sut y mae modd cryfhau'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 18
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

18. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r rhanddeiliaid i greu system fwy cadarn ar gyfer darparu adborth ar berfformiad athrawon cyflenwi. Dylai'r Gweinidog ystyried a allai'r Canllawiau newydd gael eu haddasu i gynnwys mwy o rôl i'r awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol o ran helpu i reoli perfformiad athrawon cyflenwi byrdymor.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae'r canllawiau yn ddogfen fyw. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn gweld sut y mae modd cryfhau'r ddogfen i adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn barod i drafod system adborth fwy cadarn gyda rhanddeiliaid. Byddai gofyn i ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau cyflenwi ddatblygu'r rôl hwn, at ddibenion rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd. Bydd gweithgarwch rheoli perfformiad athrawon cyflenwi yn dibynnu ar y sawl sy'n eu cyflogi. Disgwylir i awdurdodau lleol reoli perfformiad y staff y maent yn eu cyflogi. Yn yr un modd, disgwylir i asiantaethau reoli perfformiad y staff y maent yn eu cyflogi. Ni ddylai Llywodraeth Cymru ymyrryd yn y materion hyn a thresmasu ar gontractau. Fodd bynnag, efallai y bydd modd cynnig cyngor pellach am y mater hwn yn y canllawiau.

Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'n gwaith parhaus ynghylch modelau darparu amgen er mwyn darparu athrawon cyflenwi.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach wrth ddatblygu polisi.

Argymhelliad 19
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

19. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag asiantaethau ac athrawon cyflenwi i ystyried a fyddai sefydlu achrediad neu nod barcut penodol i Gymru ar gyfer athrawon cyflenwi yn gwella sicrwydd ansawdd, ac fe ddylai weithio i sefydlu nod barcut o'r fath os yw'n briodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid gan gynnwys athrawon cyflenwi, asiantaethau, undebau addysg a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn ystyried a fyddai sefydlu nod barcut neu achrediad penodol i Gymru ar gyfer athrawon cyflenwi yn gwella trefniadau sicrhau ansawdd. Byddwn yn ystyried goblygiadau ariannol ac ymarferol gweithredu nod barcut o'r fath pa fo hynny'n briodol.

Mae'r ddogfen ganllawiau yn cynnwys adran ynghylch y gofynion isaf y mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod ysgolion yn eu hystyried wrth ddewis asiantaeth gyflenwi, fel yr adlewyrchir ym mhroses dendro Darparwr Fframwaith GCC.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu gydag asiantaethau cyflenwi er mwyn annog arferion rheoli gwell gyda'u cyflogeion, megis sicrhau systemau rheoli perfformiad effeithiol a darparu datblygiad proffesiynol.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach wrth ddatblygu polisi.

Argymhelliad 20
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

20. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Canllawiau newydd yn cynnwys esboniad cliriach ar y rheolau ar gyfer defnyddio cwmnïau ymbarél (rhanddirymiad Sweden) er mwyn sicrhau nad yw hynny'n creu effaith negyddol ar ansawdd na darpariaeth athrawon cyflenwi nac ar gyfrifoldebau DPP yr asiantaeth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r ddogfen ganllawiau yn ddogfen fyw y mae Llywodraeth Cymru yn falch i'w datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr. Caiff cyngor pellach ei gynnwys a'i gyhoeddi yn ystod tymor yr haf 2016.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 21
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

21. Fel rhan o'i chais i Estyn gynnal adolygiad thematig arall o drefniadau cyflenwi yn 2016/17, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiwn athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg.

Ymateb: Derbyn

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn adolygu effeithiolrwydd ac effaith canllawiau *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn effeithiol* ar drefniadau cyflenwi mewn ysgolion cynradd. Bydd Estyn yn:

- Adolygu dulliau gweithredu ysgolion tuag at ddarparu trefniadau er mwyn ymateb i absenoldeb athrawon ac asesu effeithiolrwydd y dewisiadau cyflenwi sydd ar gael.
- Asesu effaith absenoldeb athrawon ar gyrhaeddiad dysgwyr yn y sector cynradd, gan wneud cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mewn ardaloedd difreintiedig.
- Adolygu cyflogaeth, hyfforddiant a'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi yn y sector cynradd.
- Dadansoddi'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, o'u cymharu ag ardaloedd eraill

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni y maent yn bodoli eisoes.

Argymhelliad 22
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

22. Fel rhan o'r ymchwil a argymhellir ar effaith gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau ar gyfer disgyblion (gweler argymhelliad 9), dylid cael cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydw i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn gwneud gwaith pellach i ystyried a fydd gwaith ymchwil pellach yn ychwanegu gwerth i'r maes polisi hwn.

Rydym wedi gofyn i Estyn ystyried sawl maes, gan gynnwys:

- Asesu effaith absenoldeb athrawon ar gyrhaeddiad dysgwyr yn y sector cynradd, gan wneud cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac mewn ardaloedd difreintiedig.

Goblygiadau Ariannol – Bydd angen ystyried y rhain ymhellach ar ôl i Estyn gynnal ei hadolygiad.

Huw Lewis, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau